OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 63 (Cy.14)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*17 Ionawr 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Ionawr 2013*
Yn dod i rym - -	*7 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 113(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a pharagraffau 1(1) a 2(4)(e) o Atodlen 2 iddi(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 7 Chwefror 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiadau galw am dalu sydd—

(a) yn perthyn i flwyddyn sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2013 neu wedi hynny, a

(b) yn cael eu dyroddi gan neu ar ran awdurdodau bilio Cymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**3**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Ym mharagraff 7 o Atodlen 1—

(a) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

(**1**) 1992 p. 14; diwygiwyd adran 113(1) a (2) gan adran 127 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) a pharagraffau 40 a 52 o Atodlen 7 iddi, ac adran 80 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Gwnaed diwygiadau perthnasol pellach gan adrannau 10 (cynlluniau gostwng y dreth gyngor) ac 16 (darparu gwybodaeth am y dreth gyngor), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) Mae'r pwerau hyn bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru. Cawsant eu trosglwyddo'n flaenorol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthgyl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cofnodion yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1993/255; gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 2004/460 (Cy. 45) ac O.S. 2006/217.